

"Rwy'n mynd â chriw o ddisgyblion ar drip cyfnewid ac yn ystyried rhoi fy rhif ffôn symudol i bob disgybl, er mwyn iddynt allu cysylltu â mi os oes problem yn codi. A yw hynny'n ddoeth?"

Os oes angen i chi roi rhif ffôn symudol i ddisgyblion / myfyrwyr e.e. ar daith tramor, gofynnwch am gael defnyddio ffôn sy'n perthyn i'r ysgol / coleg addysg bellach.

Peidiwch:

- rhoi eich rhif ffôn symudol personol i ddisgyblion / myfyrwyr
- ffonio neu anfon neges destun i ddisgybl / myfyriwr o ffôn symudol personol
- rhoi benthyg eich ffôn symudol personol i ddisgybl / myfyriwr
- cadw neu adael eich ffôn mewn unrhyw fan lle gallai disgyblion / myfyrwyr cael gafael arno
- cadw ar eich ffôn symudol unrhyw neges neu lun na fydddech yn hapus i unrhyw un ei weld

Os ydych yn adnabod disgyblion / myfyrwyr y tu allan i'r ysgol / coleg e.e. yn perthyn iddynt, yn aelod o'r un Clwb Ffermwyr Ifainc neu Glwb Drama, yna rhaid defnyddio'ch doethineb; mae UCAC yn eich cynghori i barhau i fod yn wylriadwrus.

Dylai bod gan eich ysgol / coleg **Polisi Defnydd Derbyniol** (*Acceptable Use Policy*) sy'n rhestru rheolau'r ysgol / coleg yn y maes hwn, ac yn cynnig cyngor. Os nad ydych wedi gweld y Polisi, gofynnwch i'ch Pennaeth.

Am wybodaeth a chyngor pellach, edrychwch ar daflen wybodaeth UCAC: [Defnydd Diogel a Chyfrifol o E-dechnoleg](#) neu cysylltwch â swyddfa UCAC i gael copi.